Adran Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon

dcms

Cynllun Grant Mannau Addoli Rhestredig

"Mae hon yn fenter hael a gobeithiaf y bydd mannau addoli ledled y DU yn ei defnyddio yn y cyfnod interim hwn tra bydd y Llywodraeth yn pwyso am newidiadau yn y drefn TAW ym Mrwsel."

Richard Chartres
Esgob Llundain a Chadeirydd Church Heritage Forum

listed places of worship grant scheme

Beth yw'r cynllun?

Yng Nghyllideb mis Mawrth 2001, cyhoeddodd Canghellor y Trysorlys ei fod yn mynd i gyflwyno cynllun grant interim a fyddai'n dychwelyd trwy gymorth grant y gwahaniaeth rhwng 5% a'r swm gwirioneddol a wariwyd ar TAW ar atgyweiriadau a gwaith cynnal a chadw cymwys i fannau addoli rhestredig.

Amcan hir dymor yr Llywodraeth yw sicrhau cyfradd TAW is barhaol ar gyfer yr atgyweiriadau hyn. Ar hyn o bryd, mae cytundebau ffurfiol Ewrop ar TAW yn atal y Llywodraeth rhag gwneud hyn. Mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi nodi y bydd yn adolygu'i gyfraddau TAW is yn 2003, a bydd y cynllun yn parhau nes cwblhau'r adolygiad hwn. Rhagwelir y gallai hyn gymryd hyd at 12 mis arall ar ôl y terfyn amser gwreiddiol a bennwyd, sef mis Mawrth 2003.

Pwy sy'n gymwys i fanteisio ar y cynllun?

Mae'r cynllun grant yn berthnasol i bob man addoli rhestredig o bob crefydd ledled y DU. Fodd bynnag, dylai'r adeiladau gael eu defnyddio'n bennaf fel mannau addoli, a rhaid eu defnyddio ar gyfer addoli o leiaf 6 gwaith y flwyddyn.

Mae'r cynllun yn cynnwys gwaith a wnaethpwyd ar 1 Ebrill 2001, neu wedi hynny. Mae gwaith cymwys yn golygu unrhyw waith sy'n cynnwys atgyweirio neu gynnal a chadw adeiledd yr adeilad (nid yw gwaith ar osodiadau a ffitiadau, a ffïoedd proffesiynol, yn gymwys) sy'n cael ei wneud gan gontractiwr TAW cofrestredig. Dim ond ôl-geisiadau y gellir eu gwneud, ond anrhydeddir pob cais dilys a wneir yn ystod cyfnod y cynllun.

Am arweiniad pellach a'r wybodaeth ddiweddaraf am waith y mae'r cynllun yn ei gynnwys, neu waith nad yw'r cynllun yn ei gynnwys, cysylltwch â gweinyddwyr y cynllun (gweler y dudalen gefn am fanylion cysylltu).

Mae'r canlynol yn enghreifftiau o fannau addoli sydd wedi elwa o'r cynllun er Ebrill 2001.

Eglwys St Margaret, Stratton Strawless, Swydd Norfolk

Cychwynnodd gwaith ar eglwys hanesyddol St Margaret ym mis Hydref 2001, ac fe'i cwblhawyd yn y Pasg 2002. Ail-bwyntiwyd y t_r, ac atgyweiriwyd ei blwm hynafol sydd â graffiti o'r ail ganrif ar bymtheg drosto i gyd. Yn sgil y cyhoeddusrwydd lleol dilynol, ymwelodd nifer anghyffredin o uchel â'r eglwys yn haf 2002, a gwnaeth ansawdd y gwaith gryn argraff arnynt, yn ogystal â harddwch a distawrwydd y tu mewn.

Mae Eglwys St Margaret wedi elwa o grant o dros £10,000.



Abaty Fearn, Hill of Fearn, Ross-shire, Yr Alban

Sefydlwyd Abaty Fearn ym 1227 yn wreiddiol, a symudodd i'w safle presennol oddeutu 1246. Tarodd mellten yr adeilad ym 1742 yn ystod gwasanaeth. Dymchwelodd y to llechfeini gan ladd 38 o bobl. Cynhaliodd y gweinidog cynorthwyol lintel drws y dwyrain gan roi cyfle i lawer o bobl eraill ddianc.

Roedd prosiect atgyweirio'r Abaty'n ddiweddar yr Abaty yn cynnwys to a landeri newydd, gwaith ail-bwyntio helaeth ar y cerrig a'r eiliau claddu y tu allan, gwaith atgyweirio ar rai ffenestri ac atgyweirio rhywfaint o'r llawr y tu mewn.

Mae Abaty Fearn wedi elwa o grant o dros £24,000.

Eglwys San Pedr, Blaenafon, Torfaen

Mae Eglwys San Pedr, a adeiladwyd yn gynnar yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg gan y meistri haearn, wedi cael ei hatgyweirio'n helaeth. Mae'r adeilad cyfan wedi ei ail-bwyntio, mae'r t_r wedi'i wneud yn ddiogel, a rhoddwyd to newydd arno. Mae fframiau haearn bwrw wedi'u hailosod yn y ffenestri yn ôl y cynllun gwreiddiol, a gosodwyd ffenestri newydd â gwydr mwy priodol, gan wella golwg yr adeilad yn fawr iawn.

Mae Eglwys San Pedr wedi elwa o grant o bron i £30,000.

Cynlluniau eraill

Yn ogystal â'r Cynllun Grant Mannau Addoli Rhestredig, mae yna gynlluniau eraill sy'n cael nawdd cyhoeddus ac a all helpu gyda chost atgyweirio mannau addoli rhestredig yn y DU.

Cymru: Gall Cadw gynnig grantiau ar gyfer atgyweiriadau i fannau addoli o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol eithriadol. Am fanylion pellach cysylltwch â:

Cadw
Parc Cathays
Caerdydd
Cymru
Ffôn: 029 2050 0200
Ebost: cadw@wales.gsi.gov.uk

Lloegr: Grantiau Atgyweirio ar gyfer Mannau Addoli yn Lloegr 2002 i 2005. Mae'r cynllun hwn yn cael ei redeg ar y cyd gan English Heritage a Chronfa Dreftadaeth y Loteri. Mae manylion pellach ar gael yn www.english-heritage.org.uk neu drwy ffonio 0870 333 1181.

Yr Alban: Grantiau Atgyweirio ar gyfer Mannau Addoli yn yr Alban 2002 i 2005. Mae'r cynllun hwn yn cael ei redeg gan Historic Scotland a Chronfa Dreftadaeth y Loteri. Am fanylion pellach cysylltwch â:

Historic Scotland
Longmore House
Salisbury Place
Caeredin EH9 1SH
Ffôn: 0131 668 8801

Gogledd Iwerddon: Cymorth Grant Adeiladau Hanesyddol ar gyfer Adeiladau Eglwysig. Am fanylion pellach cysylltwch ag:

Environment and Heritage Service
Historic Buildings Unit
5-33 Hill Street
Belfast BT1 2LA
Ffôn: 02890 543064
Ebost: sandra.neill@doeni.gov.uk

Manylion Cysylltu

Am wybodaeth bellach am y cynllun, ac i gael ffurflen gais, cysylltwch â ni:

Cynllun Grant ar gyfer Mannau Addoli Rhestredig
Blwch Post 609
Casnewydd NP10 8QD
De Cymru

Ffôn: 0845 601 5945
(codir cost graddfa lleol)

Ebost: nptcallcentreuk@cslplc.com

Gwefan: www.lpwscheme.co.uk

DCMS pp 551. February 2003